# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

04.01.21

Annwyl Riant/ Gofalwr

**Blwyddyn Newydd Dda 2021!**

Gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael gwyliau hwylus ac iach. Er nad yw eleni yn cychwyn y ffordd y byddem wedi dymuno, rwy'n dal yn obeithiol, wrth i'r misoedd mynd yn eu blaen, y gwelwn welliant i'r sefyllfa bresennol. 🤞

Rwy'n eich annog i gyd i fod yn rhan o wella'r sefyllfa trwy ddilyn rheolau ac argymhelliadau'r llywodraeth.

**Addysgu Wyneb yn Wyneb / Dysgu o Hirbell**

Fel y mae, mae Cyngor Abertawe wedi gwneud y penderfyniad i ohirio addysgu wyneb i wyneb tan Ionawr 11eg, yna mae disgwyl i ysgolion cynradd ailagor. **Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn** o bryd ac rydym yn aros am gyhoeddiad pellach gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe erbyn canol / diwedd yr wythnos hon. Gellid fod y sefyllfa hyn parhau hyd Ionawr 18fed.

O ddydd Mercher, Ionawr 6ed bydd athro eich plentyn yn darparu cyfleoedd dysgu ar-lein. Cadwch lygad ar dudalennau'r dosbarth ar ein gwefan ac anogwch eich plant i fewngofnodi i'w cyfrif Hwb. Bydd eich athro / athrawes yn eich hysbysu o'u disgwyliadau.

**Gofal Plant Brys**

O ddydd Mercher Ionawr 6ed bydd y ddarpariaeth gofal plant brys ar gael. Anfonir neges ar wahân i rieni gweithwyr allweddol i fwcio lle pe bai ei angen arnoch. Os ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cwrdd â meini prawf gweithiwr allweddol, cysylltwch â'r ysgol.

**Prydau ysgol am ddim**

Bydd taliadau bacs yn parhau nes bydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus mewn sefyllfa sy'n dal i fod yn un heriol, pryderus, rhwystredig a chyfnewidiol.

Yn Gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**